## ATODLEN 23

## DIWYGIADAU I DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

42 Yn lle adran 122 rhodder—

**"122 Cosb am fethu â thalu treth mewn pryd**

(1) Mae person yn agored i gosb os yw'r person wedi methu â thalu swm o dreth ddatganoledig ar y dyddiad cosbi neu cyn hynny mewn cysylltiad â'r swm hwnnw.

(2) Y gosb yw 5% o swm y dreth nas talwyd.

(3) Yn yr adran hon ac yn adran 122A, y dyddiad cosbi mewn cysylltiad â swm o dreth ddatganoledig a bennir yng ngholofn 3 o Dabl A1 yw'r dyddiad a bennir yng ngholofn 4.

TABL A1

| Eitem | Y dreth ddatganoledig | Swm y dreth | Y dyddiad cosbi |
|---|---|---|---|
| 1 | Treth trafodiadau tir | Swm (neu swm ychwanegol) sy'n daladwy o ganlyniad i ffurflen dreth a ddychwelir gan y prynwr mewn trafodiad tir (oni bai bod y swm o fewn eitem 8 neu 9). | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth. |
| 2 | Treth gwarediadau tirlenwi | Swm a ddatgenir mewn ffurflen dreth. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth. |
| 3 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm sy'n daladwy o ganlyniad i ddyfarniad ACC a wneir yn lle ffurflen dreth. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae ACC yn credu iddi fod yn ofynnol dychwelyd y ffurflen dreth. |
| 4 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm sy'n daladwy o ganlyniad i asesiad ACC a wneir yn lle ffurflen dreth (oni bai bod y swm o fewn eitem 7). | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae ACC yn credu iddi fod yn ofynnol dychwelyd y ffurflen dreth. |
| 5 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm (neu swm ychwanegol) | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau |

| Eitem | Y dreth ddatganoledig | Swm y dreth | Y dyddiad cosbi |
|---|---|---|---|
| | | sy'n daladwy o ganlyniad i asesiad ACC a wneir pan fo ffurflen dreth wedi ei dychwelyd. | ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm (neu'r swm ychwanegol). |
| 6 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm (neu swm ychwanegol) sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad neu gywiriad i ffurflen dreth. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm (neu'r swm ychwanegol). |
| 7 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm (neu swm ychwanegol) sy'n daladwy o ganlyniad i asesiad ACC a wneir at ddibenion gwneud addasiad i wrthweithio mantais drethiannol (gweler Rhan 3A) mewn achos pan na fo ffurflen dreth y mae gan ACC reswm i gredu ei bod yn ofynnol ei dychwelyd wedi ei dychwelyd mewn gwirionedd. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm (neu'r swm ychwanegol). |
| 8 | Treth trafodiadau tir | Pan wneir cais gohirio o dan adran 58 o DTTT, swm gohiriedig y mae'n ofynnol ei dalu yn rhinwedd adran 61(1) o'r Ddeddf honno. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm gohiriedig. |
| 9 | Treth trafodiadau tir | Pan wneir cais gohirio o dan adran 58 o DTTT, swm a wrthodir o fewn ystyr adran 61(2)(a) o'r Ddeddf honno. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm a wrthodir. |
| 10 | Treth gwarediadau tirlenwi | Swm a godir gan hysbysiad codi treth a ddyroddir o dan | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad |

| Eitem | Y dreth ddatganoledig | Swm y dreth | Y dyddiad cosbi |
|---|---|---|---|
| | | adran 48 neu 49 o DTGT. | erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm. |
| 11 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm gohiriedig o fewn ystyr adran 181G(2). | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y mae'r cyfnod gohirio yn dod i ben (gweler adran 181G ynglŷn â chyfrifo cyfnodau gohirio). |

(4) Yn yr adran hon, mae i "swm gohiriedig" yr un ystyr ag yn adran 58(6)(a) DTTT.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru addasu Tabl A1 drwy reoliadau.

**122A Cosbau pellach am barhau i fethu â thalu treth ddatganoledig**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo person yn agored i gosb o dan adran 122 mewn cysylltiad â methu â thalu swm o dreth ddatganoledig ar y dyddiad cosbi ar gyfer y swm hwnnw, neu cyn hynny.

(2) Os yw unrhyw swm yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod sydd 30 o ddiwrnodau cyn y dyddiad cosbi, mae'r person yn agored i gosb bellach.

(3) Y gosb bellach yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu.

(4) Os yw unrhyw swm yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod sydd 30 o ddiwrnodau cyn y dyddiad cosbi, mae'r person yn agored i ail gosb bellach.

(5) Yr ail gosb bellach yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu."